

Mwy o wybodaeth am y Rhaglen Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol

Ein staff a'u sgiliau nhw yw ein hadnodd mwyaf. Mae angen i ni eu cefnogi i weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Rydym yn awyddus i symud i ffwrdd o gael rhyngweithiadau sy'n dibynnu'n drwm ar brosesau, lle mae staff yn defnyddio set o gwestiynau ac atebion a bennwyd ymlaen llaw. Yn lle hynny, rydym am symud tuag at staff yn cael sgysiau gyda theuluoedd sy'n eu galluogi i ddeall eu hamgylchiadau unigryw.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ffurfio cytundeb partneriaeth gyda ASC Ltd i ddarparu rhaglen hyfforddiant i sefydliadau a elwir yn Sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol.

Mae'r hyfforddiant hwn yn galluogi sefydliadau i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau a dealltwriaeth eu gweithlu a sistem sy'n cefnogi'r dull hwn. Mae'r hyfforddiant hwn yn ystyried y goblygiadau a'r materion ymarferol sefydliadol ehangach o ymgorffori dull canlyniadau. Mae'r hyfforddiant yn ystyried:

- damcaniaethau ymddygiad dynol sy'n llywio ymatebion effeithiol
- egwyddorion sy'n sail i'n hymatebion proffesiynol
- sgiliau a strategaethau y gall ymarferwyr eu defnyddio i ymgysylltu â phobl ar adegau o her a straen
- sut mae systemau sefydliadol yn gallu cefnogi ymarfer effeithiol.

Mae'r rhaglen yn cynnwys pedwar cam:

Cam 1

Sesiwn cynllunio / briffio hanner diwrnod gyda uwch reolwyr - i gynnwys pennaeth gwasanaethau, rheolwyr gwasanaethau a rheolwyr gweithlu.

Amcanion:

- ymrwymiad gan uwch reolwyr i drawsnewidiad sefydliad cyfan
- ymrwymiad gan uwch reolwyr i gymryd rhan yn y broses, cefnogi staff, herio a newid proses a gwaith papur i gefnogi'r dull yn y dyfodol
- perchnogaeth gan uwch reolwyr.

Cam 2

Dau ddiwrnod llawn o hyfforddiant gyda sesiynau dilynol. Bydd yr hyfforddiant mewn grwpiau o ddim mwy na 15 er mwyn i ni cael trafodaeth ystyrlon o faterion ymarfer. Yn ddefnyddol, dylai timau llawn fynychu gyda'i gilydd.

Amcanion:

- adeiladu gweledigaeth glir o ymarfer da

- adeiladu hyder staff i gael sgysiau 'gwahanol', mwy ymgrymusol
- dyfnhau empathi a dealltwriaeth
- ystyried ac chael sgysiau ystyrllon gyda gweithwyr proffesiynol, teuluoedd a'i gilydd trwy ymarfer myfyriol
- cyflwyno strwythurau sgwsio
- ailffocysu seicoleg deinameg dynol y teulu
- newid patrwm o asesu risgiau a chynnig gwasanaethau, i ymgysylltu â theuluoedd i ddatrys eu problemau
- gweithlu hyderus sy'n gallu disgrifio eu hymarfer da a chreu lle i wneud hynny.

Cam 3

Dau ddiwrnod llawn arall o hyfforddiant ar gyfer mentoriaid (hyrwyddwyr ymarfer). Mae hyn yn adeiladu ar ddysgu allweddol o Gam 2 a mynd ymlaen i edrych ar sut y gallwch hyrwyddo'r dull canlyniadau ar draws yr adran a gyda asiantaethau partneriaeth. Mae hefyd yn canolbwyntio ar drefniadau goruchwyllo, hyrwyddo safonau ymarfer ac ymarfer myfyriol.

Amcanion:

- adeiladu hyder i weithio gyda 'chryfderau', 'risgiau blaenoriaeth' a 'chanlyniadau digon da'
- ymgorffori ymarfer, adeiladu hyder gweithwyr, casglu a rhannu straeon effaith
- adeiladu tîm traws sefydliad i gefnogi'r ymarfer
- dylanwadu ar newid sefydliadol, cynnig cyngor ar newid y system
- hysbysu'r agenda trawsnewid
- cymryd rhan mewn rhwydwaith cenedlaethol o hyfforddwyr a mentoriaid.

Cam 4

Dychwelwn at gwrdd ag uwch dîm rheoli ar gyfer y sesiwn olaf. Mae mentoriaid hefyd yn mynychu i roi cyflwyniad sy'n cynnwys enghreifftiau o ymarfer, cyflawniadau, rhwystrau ac atebion da. Rydym yn creu cynllun drafft a strategaeth ar gyfer sut i fynd â'r gwaith yn ei flaen gyda'n gilydd.

Amcanion:

- hyrwyddo ymarfer da, mynd i'r afael ag arferion gwael
- casglu straeon defnyddwyr gwasanaethau
- casglu tystiolaeth o oruchwyliaeth ac grwpiau myfyriol (sicrhau ansawdd ac atebolrwydd)
- mynd i'r afael â rhwystrau ac adeiladu ar lwyddiannau
- cadw cyfeiriad clir - osgoi llithro yn ôl i'r hen ddull di-ofyn o ymarfer a gwneud penderfyniadau

- casglu gwybodaeth ddibynadwy am effaith
- egluro a chytuno dangosyddion llwyddiant, er enghraifft canlyniadau gwell i deuluoedd; adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth; llai o staff asiantaeth (level cadw staff gwell a boddhad staff uwch); clywed pobl yn defnyddio 'cryfderau' ac 'iaith canlyniadau'; nifer y ffurflenni sy' wedi cael eu trawsnewid / symleiddio i adlewyrchu'r dull yn well; gweld pobl yn defnyddio canlyniadau'r teulu yn hytrach na canlyniadau'r gwasanaethau.

Os hoffech wybod mwy, cyswlltwch â jessica.matthews@socialcare.wales